

Cafcass Cymru Adroddiad Blynyddol 2021-2022



Cynnwys

Rhagair gan Nigel Brown, Prif Weithredwr Cafcass Cymru	3
Ffigurau Allweddol	4
Dangosyddion Perfformiad Allweddol	5
Cynllun Strategol	6
Ein Gwasanaethau	7
Ein Staff	11
Ein Rhanddeiliaid	14
Golwg i'r dyfodol	17



Rhagair gan Nigel Brown, Prif Weithredwr Cafcass Cymru

Ar y cyd â llawer o wasanaethau cyhoeddus, mae Cafcass Cymru wedi ymateb i'r her i barhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac amserol i'r cyhoedd yn ystod y pandemig. Mae effaith gyfunol y cynnydd parhaus yn nifer y ceisiadau llys teulu newydd, y cynnydd yn nifer yr achosion sydd wedi'u gohirio yn y system, a'r cyfyngiadau angenrheidiol sy'n newid yn gyson er mwyn ymateb i'r pandemig sy'n mynd rhagddo, wedi bod yn heriol tu hwnt.

Bu ymdeimlad o 'dechrau / stopio' yn adferiad y system Cyfiawnder Teuluol drwy gydol y flwyddyn ac mae Cafcass Cymru wedi ceisio'n ofalus i gydbwyso'r gwaith o ddarparu gwasanaeth amserol gydag amddiffyn diogelwch ac iechyd ein staff. Rydym wedi dysgu llawer ac ar ôl gwrandao ar adborth plant, teuluoedd a'n staff, rydym wedi cynnwys ffyrdd gwahanol o weithio, y gwnaethom eu mabwysiadu yn ystod y pandemig, yn ein harferion o ddydd-i-ddydd.

Rydw i'n falch dros ben o'r ffordd y mae ein staff i gyd wedi ymateb i'r ansicrwydd a achoswyd gan y pandemig ac wedi addasu iddo. Mae'r ffordd y maent wedi cofleidio ffyrdd gwahanol o weithio wedi ein galluogi i barhau i ddarparu gwasanaeth amserol, sy'n canolbwyntio ar blant.

Mae Cafcass Cymru yn benderfynol o wneud ei ran i ddiwygio a gwella. Rwy'n falch iawn felly bod gennym gyfle i fod yn rhan o ddau gynllun peilot yng Nghymru sy'n ceisio gwella'r ffordd y mae'r system Cyfiawnder Teuluol yn gwasanaethu plant a theuluoedd:

- Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol cyntaf yng Nghymru ac rwy'n falch bod Cafcass Cymru wedi bod yn rhan o'r fenter gyffrous hon yn y de-ddwyrain. Mae'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn darparu dull gweithredu achosion cyfraith gyhoeddus sy'n ceisio defnyddio dull datrys problemau at waith gyda rhieni sy'n cael trafferthion yn sgil camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae'r cynllun peilot yn gweithredu ledled Caerdydd a Bro Morgannwg am gyfnod o ddwy flynedd a chaiff ei werthuso gan Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (Cascade).

- Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ariannu dau gynllun peilot 'Braenaru' (un yn y gogledd ac un yn Dorset) sy'n rhoi dull newydd ac arloesol o ymateb i deuluoedd sy'n mynd at y Llysoedd Teuluol mewn achosion cyfraith breifat. Mae'r dull sy'n cael ei brofi yn y safleoedd peilot yn ymateb uniongyrchol i'r **Adroddiad Niwed** (Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat) a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020.

Rydw i'n falch iawn hefyd bod y Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol wedi dod yn aelod parhaol o Bwyllgor Cynghori Cafcass Cymru. Mae dau aelod o Fwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol yn bresennol ym mhob cyfarfod a chânt eu cefnogi i godi materion a rhoi cyflwyniadau ar faterion a nodwyd ganddynt sy'n allweddol i blant a phobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder teuluol. Mae eu cyfraniad yn gyfoethog ac yn heriol bob amser ac yn cael ei groesawu gan bawb i raddau helaeth. Hoffwn hefyd estyn fy niolchiadau diffuant i Jackie Murphy sy'n cadeirio'r Pwyllgor Cynghori ac aelodau eraill o'r pwyllgor sy'n parhau i gynnig eu mewnwelediad a'u cyngor.

Yn olaf, wrth i ni edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod, dyma fydd y prif heriau i Cafcass Cymru:

- Rheoli ac ymateb i lwythi gwaith uchel a sicrhau nad oes rhaid i'r un plentyn aros am wasanaeth yng Nghymru.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i gyflwyno'r Cynllun Peilot Braenaru yn y gogledd a'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn y De-ddwyrain.
- Ymateb i Wiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru o Cafcass Cymru.
- Cyflawni'r gwaith a gododd o Raglenni Gwaith Llywydd Cyfraith Gyhoeddus a Chyfraith Breifat yr Is-adran Teuluoedd.

Ffigurau Allweddol

Gwnaethom weithio gyda
11,543
o blant eleni.

Gwnaethom dderbyn
1,455
o geisiadau
cyfraith
gyhoeddus.

Roeddem yn rhan
o **1,464**
o Apwyntiadau
Datrys Anghydfod
Gwrandawriad Cyntaf:

Gwnaethom gynnal
1,174
o adroddiadau
Dadansoddiad o'r
Effaith ar Blant,
lle y gwnaeth ein
hymarferwyr gyfarfod
â phlant er mwyn
deall eu hanghenion
yn well cyn gweithio'n
agos gyda'r partïon
dan sylw, yn ogystal
ag asesu'r materion
yn yr achos.

Cafodd **341**
o'r Apwyntiadau
Datrys Anghydfod
Gwrandawriad
Cyntaf eu datrys
yn llwyddiannus
heb waith pellach
gan fod y partïon
yn cytuno ar
drefniadau a oedd
yn ddiogel, yn addas
ac er lles y plentyn.
Cafodd yr holl
wrandawiadau hyn
eu cynnal o bell.

Daeth **729**
o geisiadau
Adran **31**
i Cafcass Cymru
yn 2021/22.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Yng nghyd-destun y pandemig, mae wedi bod yn rhyfeddol ein bod wedi parhau i berfformio mor gryf o ran dyrannu gwaith ym meysydd cyfraith gyhoeddus a phreifat, gan sicrhau nad oes oedi yn y ddarpariaeth gwasanaeth i'r plant rydym yn gweithio gyda nhw, ac mae hynny'n destament i'n staff. Er y cafwyd perfformiad da o ran cofnodi adroddiadau'r llys yn brydlon, rydym yn cydnabod bod angen gwneud gwaith yn barhaus er mwyn gwneud rhagor o welliannau.

Rydym wedi cyrraedd ein targed

95%
o'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Cafodd

96%
o'r ceisiadau Dadansoddiad o'r Effaith ar Blant eu dyrannu o fewn 5 diwrnod gwaith o'u derbyn.

Gwnaeth

92%
o adroddiadau Diogelu fodloni eu dyddiad cofnodi i'r llys 3 diwrnod cyn y Gwrandawriad Cyntaf.

Gwnaeth

87%
o Adroddiadau Dadansoddiad o'r Effaith ar Blant fodloni eu dyddiad cofnodi i'r llys.

Cafodd

95%
o'r ceisiadau adran 31 a ddaeth i law eu dyrannu o fewn 2 ddiwrnod gwaith o'u derbyn.



Cynllun Strategol

Mae ein Cynllun Strategol, yn cynnig cyfeiriad a ffocws i'r hyn a wnawn a sut rydym yn ei wneud ac mae'n sicrhau bod ein rhan ni ym mywydau plant a theuluoedd yn parhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Mae ein strategaeth yn cynnwys 3 nod cyffredinol sy'n disgrifio sut byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion tuag at gyflawni ein pwrpas.

Mae'r nodau hyn yn canolbwyntio ar Ein Gwasanaeth, Ein Staff ac Ein Rhanddeiliaid.

- **Ein Gwasanaeth**

Rydym am ddarparu gwasanaeth o'r safon orau i gefnogi canlyniadau gwell i bob plentyn, person ifanc a theulu rydym yn gweithio gyda nhw.

- **Ein Staff**

Rydym eisiau amgylchedd a diwylliant dysgu lle mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac y caiff eu llesiant ei gefnogi.

- **Ein Rhanddeiliaid**

Rydym eisiau rhannu ein gwybodaeth, dysgu gan bartneriaid a defnyddio ein dylanwad ar y cyd i wella'r system cyfiawnder teuluol a gofal cymdeithasol plant yng Nghymru.



Darparu dadansoddiad o safon uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac argymhellion sydd wedi'u cynllunio ar gyfer anghenion ac amgylchiadau pob plentyn a pherson ifanc.

Eleni rydym wedi datblygu ein cynlluniau i wella ein gwasanaeth yn barhaus a gwella ansawdd ein gwaith.

Mewn ymateb i'r hyn a ddysgwyd gennym o archwiliadau achos, rydym wedi datblygu a chyflwyno dogfen grynoded newydd o achosion wedi'u cau ar gyfer achosion cyfraith gyhoeddus. Mae hyn wedi ein galluogi i nodi gwybodaeth a chanlyniadau allweddol i'r plant a'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw mewn cyfraith gyhoeddus.

Wrth symud ymlaen, rydym yn rhagweld y bydd y wybodaeth hon yn helpu i ffurfio gwelliannau parhaus i'n gwasanaeth, yn enwedig o ran y ffordd rydym yn ymgysylltu â'r plant a'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw yng Nghymru.

Rydym wedi gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru i gynnal adolygiadau ar y cyd ar sampl o achosion sydd wedi'u cau er mwyn llywio dysgu a datblygu arferion ar gyfer ein hymarferwyr ac i'r rhai mewn awdurdodau lleol.

Y nod yw cryfhau cydberthnasau gwaith rhwng asiantaethau, nodi arferion da a chryfhau gwaith datblygu arferion.

Gwnaethom ddarparu adborth ar werthusiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn rhoi'r 'cynnig safonol' ar waith ac yn ei ymgorffori i deuluoedd sy'n gofalu am blant dan Orchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig.

Nod y 'cynnig safonol' yw darparu lefel o gymorth unigol gytûn i blant sy'n destun Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig a chafodd ei lansio ledled Cymru yn 2019: bydd yr adborth hwn yn llywio ac yn ffurfio gwelliannau parhaus i blant a phobl ifanc.



Gwrando yn gyson ar lais y plentyn a'i hyrwyddo ym mhopeth yr ydym yn ei wneud.

Dathlodd y Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol ei 10fed pen-blwydd eleni. Rydym yn falch o fod wedi bod yn rhan o'u dathliadau ac i fod yn rhan o'r daith honno. Rydym yn parhau i gynnal cydberthynas waith gref gyda nhw, gan helpu i sicrhau bod llais y plentyn yn flaenllaw i'n gwaith bob amser. Rydym wedi cyflwyno'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol i'n Pwyllgor Cyngori i'n llwyddiannus, gydag aelodau'r bwrdd yn darparu cyflwyniadau chwarterol i'r Pwyllgor ar faterion ym maes Cyfiawnder Teuluol sy'n effeithio arnynt.

Rydym yn falch iawn ein bod wedi cydweithio ag aelodau'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol ar nifer o brosiectau eleni, gan gynnwys creu a chyflwyno hyfforddiant wedi'i deilwra i'n staff cymorth busnes.

Rydym wedi parhau i gyhoeddi 'Awgrymiadau Defnyddiol' y Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol ar dudalennau ein mewnwrwyd er mwyn i'n staff edrych atynt, ochr yn ochr ag aelodau'r bwrdd yn mynychu cyfarfodydd tîm i gyflwyno'u hawgrymiadau defnyddiol 'Gwylwch eich Geiriau' mewn person.

Mae aelodau'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol yn parhau i chwarae rôl allweddol yn ein proses recriwtio ar gyfer ymarferwyr gwaith cymdeithasol a swyddi rheoli drwy fod yn rhan o'n paneli cyfnewid. Mae'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol hefyd yn chwarae rôl bwysig wrth ddarparu adborth ar y ffordd yr hoffent i'n hadroddiad blynyddol i blant a phobl ifanc edrych.

Wrth wrando ar adborth ein staff, rhanddeiliaid a'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol, gwnaethom ddiweddarau ein gwefan a'n cyfathrebiadau ysgrifenedig i gyfeirio teuluoedd a phlant at ystod ehangach o wasanaethau mewn ffordd well. Gwnaethom hefyd gynnal archwiliad o'r cwynion y gwnaethom ymchwilio iddynt er mwyn nodi unrhyw beth y gallem ei ddysgu i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau.



Deall a dangos y gwahaniaeth y mae ein gwasanaeth yn ei wneud i blant, pobl ifanc a theuluoedd.


Rydym wedi cynnal archwiliadau o'n gwaith yn ystod y flwyddyn i'n helpu i ddeall ansawdd ein gwaith yn well a'r effaith rydym yn ei chael ar sicrhau canlyniadau diogel i blant sy'n hyrwyddo'u lles pennaf. Un enghraifft o'r ffordd y mae hyn wedi dylanwadu ar ein hymarfer yw datblygu canllawiau ac adnoddau sy'n cefnogi ein hymarferwyr i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn weladwy a bod ei lais wrth wraidd pob adroddiad a ddarperir i'r llysoedd teuluol. Gwnaethom hefyd adolygu ein prosesau cau achosion ac mae gennym bellach ymdeimlad llawer gwell o ganlyniadau ar bwynt cloi achosion, yn ogystal ag ystyried y 'gwerth ychwanegol' rydym wedi'i gyflwyno i sefyllfa'r plentyn fel mater o arfer.

Gwnaethom gwblhau archwiliad byr, a oedd yn canolbwyntio ar achosion Rheol 16.4, a dynnodd sylw at nifer o faterion ac a'n harweiniodd at gynnal archwiliad manylach.

Mae disgwyl i adroddiad ar y canlyniadau gael ei gwblhau yn ystod haf 2022. Byddwn yn rhannu canlyniadau'r archwiliad estynedig hwn gyda rhanddeiliaid er mwyn dylanwadu ar welliannau'r gwasanaeth ehangach a ffurfio'r gwelliannau hynny.

Mewn blwyddyn lle gwnaethom weithio gyda mwy na 11,000 o blant a'u teuluoedd, gwnaethom dderbyn 46 o gwynion, gan gynnwys un gan blentyn. Mae hwn yn ostyngiad o bron i draean ers y llynedd. Gwnaethom barhau, fel yr ydym wedi'i wneud yn y blynyddoedd blaenorol, i weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i geisio datrys eu cwynion yn gynharach, gyda dim ond 14 o'r cwynion yn datblygu i ymchwiliad llawn.

Gwnaethom hefyd dderbyn 49 o negeseuon canmolïaeth ac rydym yn parhau i fod yn ddiolchgar am adborth ein defnyddwyr gwasanaeth i'n galluogi i ddysgu a gwella'r gwasanaeth a ddarparwn.




Gwella ein gwasanaeth yn barhaus drwy archwilio ffyrdd newydd o weithio.

Rydym wedi parhau i adolygu'r ffordd rydym yn gweithio gyda phlant a theuluoedd a'n ffordd o ymgysylltu â nhw yng ngoleuni'r hyn a ddysgwyd gennym yn ystod y pandemig. Rydym wedi clywed gan rai plant a theuluoedd fod yn well ganddynt ein bod yn ymgysylltu â nhw mewn dull cyfunol, sy'n cynnwys cyfarfod o bell ac wyneb yn wyneb. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau â'r dull wedi'i deilwra hwn sy'n diwallu anghenion y plentyn unigol orau.

Rydym yn croesawu'r gwaith o gyflwyno'r porth cyfraith gyhoeddus gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi sy'n ein galluogi i gael gafael ar wybodaeth am achosion sydd wedi'u cofnodi gyda'r llysoedd teuluol mewn achosion cyfraith gyhoeddus yn gyflym, heb orfod lawrlwytho gwybodaeth.

Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi wrth iddynt roi'r porth cyfraith breifat ar waith yn 2022-23.



Hybu iechyd a lles yr holl staff, er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith wrth gynnal gwasanaeth effeithlon ac effeithiol.

Rydym wedi cofleidio'r defnydd o dechnoleg er mwyn symleiddio a gwella'r ffordd rydym yn gweithredu sydd wedi galluogi ein cydweithwyr i ymateb i'r cynnydd mewn gwaith. Rydym wedi mabwysiadu'r defnydd o adnoddau cyfathrebu fel Attend Anywhere a Microsoft Teams fel ffordd o ymgysylltu mewn cyfarfodydd rhithwir â phlant a theuluoedd lle y bo'n briodol.

Rydym wedi cyflwyno nifer o sianeli Microsoft Teams i'n staff fynd at adnoddau, cymorth a hyfforddiant, gan alluogi ein cydweithwyr ym mhob rhan o'r sefydliad i rannu gwybodaeth a dysgu'n hawdd gyda'i gilydd.

Mae iechyd a llesiant ein staff yn flaenoriaeth ac rydym wedi ymgymryd ag arolygon staff rheolaidd i hysbysu'r hyn y gallwn ei wneud i gefnogi staff yn llawn. Mae ein cylchlythyrau Iechyd a Llesiant misol yn cyfeirio staff at adnoddau i roi cynghorion, awgrymiadau a gwybodaeth iddynt am amrywiaeth o faterion.



Buddsoddi mewn dysgu parhaus, gan helpu i ysbrydoli ac ysgogi staff i ddatblygu yn eu swyddi.

Rydym wedi darparu ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i'n staff gefnogi eu datblygiad proffesiynol, sy'n cynnwys meysydd fel trawma, cam-drin rhywiol o fewn y teulu, camfanteisio'n rhywiol ar blant a seicoleg plant.

Ochr yn ochr â'r sesiynau hyfforddi, mae ein cylchlythyrau misol yn cynnwys adnoddau ychwanegol y gall ein staff eu defnyddio ar amser sy'n addas iddynt hwy.

Yn ystod y cyfnod hwn, cymerodd ein staff ran mewn nifer o weithgorau i symud gwaith datblygu arferion yn ei flaen a diweddarau canllawiau gweithredol, gan gynnwys un ar gyfraith gyhoeddus a wnaeth adolygu a diweddarau canllawiau ar orchmynion goruchwyllo a gofal.

Drwy wrando ar adborth ein staff cymorth busnes, rydym wedi dechrau datblygu canllawiau a chyflwyno hyfforddiant wedi'i deilwra sydd wedi'i anelu'n uniongyrchol at y rôl hanfodol maent yn ei chwarae yn y sefydliad. Er mwyn helpu'r dysgu parhaus hwn, rydym wedi bod yn gweithio gyda rhai o'n rhanddeiliaid, gan gynnwys Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhdy a Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol, i gyflwyno nifer o weithdai wed'u teilwra i'n timau cymorth busnes.



Recriwtio, cadw a buddsoddi mewn gweithlu hyfedr, brwdfrydig ac amrywiol.

Rydym yn parhau i ymrwymo i fod yn gyflogwr sy'n cydnabod buddiannau hyrwyddo amrywiaeth yn ein gweithlu. Rydym wedi newid y geiriad yn ein hysbysebion i chwilio am bobl gyda phrofiad gwaith byw a/neu brofiad gwaith proffesiynol amrywiol ac wedi hysbysebu'r rhwydweithiau amrywiaeth sydd ar gael yn Llywodraeth Cymru, y mae Cafcass Cymru yn Is-adran ohoni.

Eleni, rydym wedi gweithio'n agos gyda grwpiau Llywodraeth Cymru fel Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd (DAAS); Rhwydwaith Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig (MESN); Materion y Meddwl (Iechyd meddwl a lles); PRISM (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol, Traws, Rhyngrywiol +) a Menywod Ynghyd, y mae pob un ohonynt yn bwriadu parhau i hyrwyddo ein sefydliad fel un sy'n dathlu a pharchu amrywiaeth a chynhwysiant i bawb.

Rydym wedi rhoi sgysiau am ein hamrywiaeth a'n profiadau byw unigryw ar waith ac wedi'u hannog ymhlith ein haelodau staff, a hynny fel rhan o'r gwaith o ganolbwyntio ar yr angen i ystyried yr un peth mewn perthynas â'n defnyddwyr gwasanaeth. Fel rhan o'r ymrwymiad parhaus hwn, rydym wedi defnyddio adnodd 'GRRRAAACCEEESSS' fel ffordd o annog staff i gymryd rhan mewn trafodaethau myfyriol am amrywiaeth.

Rydym wedi sefydlu grwpiau o hyrwyddwyr yn ein gweithlu i ganolbwyntio ar faterion fel anabledd, niwroamrywiaeth, ethnigrwydd, hil a diwylliant.

Mae'r grwpiau hyn, sy'n agored i bob aelod o staff, yn darparu fforwm i rannu a dysgu o gefndiroedd a phrofiadau gwahanol yr aelodau. Gall y grwpiau hyn gefnogi a chynghori ei gilydd a sicrhau ein bod yn dwyn ein hunain i gyfrif mewn perthynas â'r ffordd rydym yn mynd i'r afael ag amrywiaeth yn ein gweithlu ein hunain ac yn ein gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth.

Gan alw ar brofiadau byw ein staff, gwnaethom gynnal arolwg cynefino staff lle gwnaethom ofyn i aelodau mwyaf newydd ein staff am adborth ar eu 6 mis cyntaf o gyflogaeth yn y sefydliad. Mae'r adborth wedi bod o gymorth i ni gael dealltwriaeth well o'u profiad cychwynnol a bydd yn cael ei ystyried fel rhan o sesiynau cynefino staff newydd i'r dyfodol.




Gwella a chryfhau ein cysylltiadau â rhanddeiliaid.

Mae'n hollbwysig bod gennym gydberthnasau gwaith cryf a chadarnhaol gyda'n rhanddeiliaid gan ein bod am fod yn sefydliad blaengar, sy'n gwrando.

Mae'r cysylltiadau cryf a ddatblygwyd gennym yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi'u datblygu ymhellach gan fod ein ffocws wedi newid o heriau dyddiol y pandemig i'r materion 'busnes yn ôl yr arfer' y mae angen ein sylw arnynt.

Fel rhan o'n gwaith gyda rhanddeiliaid, sy'n cynnwys y farnwriaeth, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi ac awdurdodau lleol, rydym wedi bod wrthi yn rhoi newidiadau ar waith mewn cyfraith breifat, mewn ymateb i Gyfarwyddyd Ymarfer 36Q, ynghyd a gweithio'n agos a Cafcass yn Lloegr, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r llysoedd braenaru newydd.



Parhau i wella ein systemau ar gyfer cipio, adrodd a dadansoddi gwybodaeth.


Rydym wedi parhau i ddatblygu ein system rheoli achosion, IRIS, i gryfhau ein prosesau rheoli achosion a dadansoddi data.

Rydym wedi datblygu ein dangosfyrddau ansawdd data gan sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael ac ymestyn mynediad i alluogi staff i olrhain eu gwybodaeth ansawdd data eu hunain. Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd wedi datblygu a threialu dangosfyrddau newydd er mwyn monitro amrywiaeth ac adrodd ar


ganlyniadau ar bwynt cau achosion mewn achosion cyfraith gyhoeddus.

Mae ein system rheoli achosion yn parhau i'n cefnogi i ddeall y gofynion sy'n cael eu gosod ar ein gwasanaeth. Mae'r graffau isod yn dangos y cynnydd parhaus o flwyddyn i flwyddyn yn ein hymwneud â theuluoedd mewn cyfraith breifat, rydym wedi cael profiad o ddychwelyd i'r ffigurau a oedd yn agosach at gyfraddau 2019-20 mewn ceisiadau cyfraith gyhoeddus.

Llwyth Achos Cyfraith Preifat



Llwyth Achos Cyfraith Gyhoeddus



Chwarae rhan arweiniol drwy rannu ein gwybodaeth a'n deallusrwydd yn briodol gyda rhanddeiliaid er mwyn cefnogi gwelliannau yn y system cyfiawnder teuluol a gofal cymdeithasol.

Rydym yn parhau i ymroi i gyfrannu at ymchwil ac ymateb iddi. Rydym wedi cynnal ein cydberthynas â phartneriaid allweddol ac wedi adeiladu arni, gan gynnwys Arsyllfa Deuluol Nuffield a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Drwy barhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid, bu modd i ni ddarparu gwybodaeth a data gwerthfawr er mwyn helpu i lywio a ffurfio'r gwaith o gyflwyno'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) a pheilot Braenaru Gogledd Cymru.

Gwnaethom hefyd weithio'n agos gyda Phrifysgol Bryste i rannu gwybodaeth a data dienw â hi er mwyn helpu i lywio astudiaeth diddymu gofal Cymru a Lloegr, y mae disgwyl iddi gael ei chyhoeddi yn 2022-23.



Golwg i'r dyfodol

Ein Gwasanaeth

Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i gydweithio gydag eraill i gyflawni gwelliannau i deuluoedd fel rhan o'r gwaith o ddiwygio ac adfer y system Cyfiawnder Teuluol.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Cynllun Peilot Braenaru yn y gogledd a'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn y De.

Edrychwn ymlaen hefyd at groesawu'r adborth annibynnol y byddwn yn ei dderbyn gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn dilyn ei wiriad sicrwydd ar Cafcass Cymru ym mis Mehefin 2022.

Ein Staff

Byddwn yn parhau i wrando a gweithredu ar adborth a gawn gan ein staff o ran ein ffyrdd newydd o weithio, yn dilyn yr heriau sylweddol y gwnaethom eu hwynebu yn ystod pandemig COVID-19.

Byddwn yn parhau i hybu iechyd a llesiant ein staff drwy ymateb i'r arolwg staff diweddaraf, gan barhau i gyflwyno hyfforddiant i staff a chynhadledd staff a hyrwyddo cyfarfodydd un-i-un i roi cymorth unigol i staff.

Ein Rhanddeiliaid

Byddwn yn parhau i gynnal cydberthnasau proffesiynol cryf â'n rhanddeiliaid, gan gynnwys ein Pwyllgor Cynghori, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, awdurdodau lleol, Cafcass (Lloegr) a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi, wrth i ni gymryd rhan mewn treialon sy'n ffurfio ac yn llywio datblygiad cyfiawnder teuluol yng Nghymru.

